

## RhDDC (GDPR)

Tua diwedd mis Mai roedd sôn mawr am y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a ddaeth i rym ddiwedd y mis hwnnw. Roedd pob math o gwmnïau a mudiadau yn cysylltu â ni i ofyn am ein caniatâd iddyn nhw gadw ein henw a'n cyfeiriad ar eu rhestr o bobl a oedd i dderbyn llythyr neu ohebiaeth oddi wrthynt.

Mae'r rheoliadau hynny'n effeithio ar yr eglwysi fel ar bob mudiad elusennol a chwmmi arall. Mae hefyd yn effeithio ar *Gronyn*. Yn ôl y rheoliadau newydd hyn, ni ddylem gyhoeddi enw a chyfeiriad pobl heb gael eu caniatâd i wneud hynny. O'r cychwyn cyntaf rydym wedi cyfeirio yn Gronyn at aelodau sydd yn yr ysbyty, yn bennaf er mwyn i'w cyd-aelodau gofio amdanynt yn eu gweddïau. Ofnir felly na fydd modd dal ymlaen i gynnwys rhestr o enwau cleifion, ond gobeithio y byddwn yn parhau i weddio dros ein gilydd.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theuluoedd a gollodd anwyliad dros yr wythnosau diwethaf.

Bydd rhifynnau nesaf Gronyn yn cynnwys cofiad i'r aelodau a fu farw ers i Gronyn gael ei gyhoeddi ddiwethaf.

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Medi 9

5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Coetmor Williams

#### Medi 16

3.30 p.m. - Y Gweinidog

#### Medi 23

5.00 p.m. - Y Parchg Cledwyn Williams,

#### Medi 30

5.00p.m.—Mr Thomas Alun Williams

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Medi 9:** Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams, Rachub.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Nos Fawrth, Medi 4:** Y Gymdeithas Undebol yn ail ddechrau. Noson o adloniant yng nghwmni Alaw Tecwyn, Y Rhiw. Croeso cynnes i bawb.

**Dydd Sul, Medi 9:** Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gany Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.00 o'r gloch.

### CARMEL

**Dydd Sul, Medi 9:** Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Glenys Jones.

### BETHLEHEM

**Dydd Sul, Medi 9:** Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Medi 9:** Ni chynhelir oedfa.

### Y mis nesaf - Llanberis

#### Medi 9

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

#### Medi 16

10.00 a.m. - Y Parchg Eifion Williams  
11.15 a.m. - Ysgol Sul

#### Medi 23

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

#### Medi 30

10.00 a.m. - Mr Dewi Jones, Pwllheli

Gofalaeth Fro'r  
Llechen Las

Rhif 764  
02 Medi, 2018  
**Gronyn**

## Newid dim?

Mi glywais bobl yn cydnabod iddynt, wrth sefyll arholiad, drafod nofel er nad oeddent wedi ei darllen. Mi wn hefyd am rai sydd wedi adolygu llyfr, a hwythau heb hanner ei ddarllen. Ac er na fyddwn yn argymhell i neb ddilyn eu hesiampl, mentraf sôn heddiw am lyfr nad wyf ond newydd ddechrau ei ddarllen. Ar ddiwedd y Rhagair sy'n gwahodd y darlennydd i feddwl am dystiolaeth eglwysi Cristnogol yn yr unfed ganrif ar hugain dywedir, 'Gall [darllen y llyfr] newid popeth trwy alw arnat i beidio â newid dim.' Bydd rhaid aros i weld beth yn union a olygir wrth 'newid popeth' a 'newid dim' ym mywyd yr eglwysi heddiw.

Os mai'r hyn a gredwn sydd dan sylw mi ddadleuwn i na ddylem newid dim, ond glynu'n hytrach wrth yr Efengyl sy'n aros yr un ym mhob cenedlaeth. Nid oes i'r newyddion da am Iesu Grist a'i fywyd a'i farwolaeth *sell-by date*; mae'n parhau mor berthnasol ag erioed, ac wrth i bobl ymateb i'w chysur a'i her y bydd popeth yn newid. Efengyl gras a chariad Crist sy'n trawsnewid bywydau ym mhob oes.

Nid am hynny y mae'r llyfr yn sôn. Ac nid yw'n sôn chwaith am newid neu beidio â newid ein trefn eglwysig na phatrwm ein haddoliad. Byddai llawer yn dadlau fod rhaid newid y pethau hyn. Ond er y dylai pob eglwys fod yn barod i addasu dan arweiniad Duw, ni fyddai newid popeth ynddo'i hun o reidrwydd yn gwarantu newid unrhyw beth o bwys. Nid yw'r hen batrymau a

etifeddwyd gennym ynddynt eu hunain yn rhwystr i eglwys a'i haddoliad. Ar draws y byd, gwelwn eglwysi byw, ffyniannus sy'n glynu'n ffyddlon wrth hen batrymau gan ein cadw ninnau felly rhag dweud fod rhaid bob amser newid popeth.

Nid yw peidio â newid ynddo'i hun yn rhinwedd. Ac nid yw newid er mwyn newid yn fwy o rinwedd chwaith. Ond wedi gwyliau'r haf ac ar ddechrau tymor newydd tybed a oes cyfle i bob eglwys ystyried beth sydd angen ei newid a beth sydd angen ei gadw er mwyn hwyluso'i gwaith a grymuso'i thystiolaeth.

Yn ôl a ddeallaf, trafod bywyd eglwys o fewn ei chymuned leol ei hun a wna'r llyfr hwn. I'r awdur, 'peidio â newid dim' yw aros mewn un eglwys leol yn hytrach na symud o eglwys i eglwys, a bodloni ar wasanaethu Crist yn y man yr ydym yn hytrach na chwilio o hyd am feysydd newydd. Eglwysi dinesig yn yr Unol Daleithiau sydd dan sylw wrth iddo fynegi pryder nad yw llawer ohonynt yn perthyn i'w cymunedau o gwbl. Mae'n dadlau mai'r ffordd i 'newid popeth' (a gwneud eglwysi'n fwy effeithiol) yw 'peidio â newid dim' (a chanolbwyntio yn hytrach ar ddwyn ein tystiolaeth yn ein bywydau bob dydd ymhlith ein cymdogion o fewn y gymuned leol). Yn wahanol i eglwysi dinesig America y mae eglwysi bychain Cymru yn rhan o'u cymunedau, a'n braint yw bod trwy ras yn oleuni Crist o'u mewn.



## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Tymor Newydd

Mae dechrau Medi bob blwyddyn yn nodi dechrau newydd i bob un ohonom sydd ag unrhyw gyswllt â byd addysg. Yr wythnos hon eto, bydd yna blant bach yn mentro i gylch meithrin, ysgol feithrin ac ysgol gynradd am y tro cyntaf. Bydd plant bach eraill yn dychwelyd i'r ysgol wedi gwyliau'r haf gan symud o bosibl i ddosbarth newydd. Bydd eraill yn mynd i'r ysgol uwchradd am y tro cyntaf, a bydd popeth yn newydd iddynt am rai wythnosau. Bydd llawer a adawodd yr ysgol yn yr haf yn cychwyn gweithio neu'n mentro i goleg, un ai yn lleol neu ym mhell o gartref. A bydd y cyfan yn newydd nid yn unig i'r plant a'r ieuencid ond i'w rhieni a'u teuluoedd yn ogystal. Dymunwn yn dda felly i holl deuluoedd eglwysy'r Ofalaeth sy'n wynebu unrhyw un o'r sefyllfaoedd hyn.

Mae eraill ohonoch yn dychwelyd o'ch gwyliau i'ch swyddi neu i'r gwahanol gyfrifoldebau sydd gennych o fewn y teul neu'r gymuned neu'r eglwys. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r seibiant ac yn barod am waith.

## Balm o Salm



BYW Y BEIBL

'Bloeddiwch mewn gorfoledd i'r ARGLWYDD, yr holl ddaear, canwch mewn llawenydd a rhowch fawl. Canwch fawl i'r ARGLWYDD â'r delyn, â'r delyn ac â sain cân. Â thrwmpedau ac â sain utgorn bloeddiwch o flaen y Brenin, yr ARGLWYDD. Rhued y môr a'r cyfan sydd ynddo, y byd a phawb sy'n byw ynddo. Bydded i'r dyfroedd guro dwylo; bydded i'r mynyddoedd ganu'n llawen gyda'i gilydd o flaen yr ARGLWYDD, oherwydd y mae'n dyfod i farnu'r ddaear; bydd yn barnu'r byd â chyfiawnder, a'r bobloedd ag uniondeb' (Salm 98:4-9).

Ac ar ddechrau'r tymor newydd, mae'n fwriad i ail ddechrau cyhoeddi *Gronyn* yn rheolaidd.

## Diolch

Mae'n amhosibl i mi ail afael yn y dasg o baratoi *Gronyn* heb ddiolch yn gyntaf i bawb ohonoch am eich cydymdeimlad a'ch cefnogaeth a'ch cymorth i mi a'r teulu dros y chwe mis diwethaf, wedi marwolaeth Falmai ar Fawrth 15. Rydym wedi gwerthfawrogi pob ymweliad a phob galwad ffôn, ynghyd â'r llythyrau a'r cardiau a'r negeseuon a anfonwyd atom. Yr oedd y cyfan yn ein sicrhau o ofal mawr yr eglwysy a'r gymdogaeth amdanom. Roedd hefyd yn dangos mor annwyl oedd Falmai yng ngolwg cynifer ohonoch a chymaint o werthfawrogiad oedd o'i gwasanaeth i'w heglwys yn Capel Coch ac i'r Ofalaeth. Diolch am bob cymwynas dros y misoedd diwethaf.

Wrth ail afael yn y gwaith ganol Ebrill a dechrau Mai yr oeddwn yn ddiolchgar hefyd am anogaeth amryw ohonoch i mi beidio ag ail ddechrau cyhoeddi *Gronyn* am y tro.

## Cynllun Efe

Dros yr haf, penodwyd Mrs Susan Williams, Ceunant, Llanrug yn weithiwr newydd Cynllun Efe. Yn ei swydd newydd, bydd Susan, fel ei rhagflaenydd Catrin Hampton, yn gwasanaethu eglwys Caersalem, Caernarfon a *Scripture Union Cymru* hefyd gan barhau'r bartneriaeth a gychwynwyd flwyddyn yn ôl.

Wrth groesawu Susan i'r swydd mae Ymddiriedolwyr Efe hefyd yn diolch i Catrin am y gwaith ardderchog a wnaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cafwyd canmoliaeth a gwerthfawrogiad o'i gwaith yn yr eglwysy a'r ysgolion y bu hi'n ymweld â nhw. Yr oeddem wedi gobeithio cael ei chwmmi a'i gwasanaeth am ragor o amser gan ein bod wedi ei phenodi i swydd dair blynedd. Ond er mor siomedig ydym o'i gweld yn symud i Sir Gaerfyrddin, yr ydym yn gwerthfawrogi'r cyfle annisgwyl a ddaeth iddi hi a'i gŵr Corey gael gwasanaethu gyda'i gilydd mewn swyddi newydd yno. Dymunwn iddynt bob bendith a llawenydd yn eu cartref a'u gwaith newydd.

Mae Susan yn cychwyn ei swydd yr wythnos hon. Nid yw'r gwaith yn newydd nac yn ddiethr iddi. Bu Susan yng nghanol gwaith Cynllun Efe o'r cychwyn. Dros rai misoedd y llynedd, wedi ymadawiad ein gweithiwr cyntaf Andrew Settatree a chyn penodi Catrin, bu Susan yn parhau gwaith Efe yn yr ysgolion lleol. A thros y flwyddyn ddiwethaf hefyd daliodd i ymweld ag amryw o'r ysgolion gyda Catrin. Mae'n edrych ymlaen yn fawr at gael parhau'r gwaith hwn.

Y mae Susan yn wyneb cyfarwydd hefyd i lawer o eglwysy dalgylch Efe gan ei bod wedi cynnal gwasanaethau ac arwain oedfaon yn eu plith ers blyneddau. Dymunwn bob bendith iddi yn y gwaith, ac edrychwn ymlaen yn fawr at gydweithio â hi.

## Heddiw

Mae'r oedfa yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch yng ngofal Mr Colin Jones a Mr Gareth Jones. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Geraint Roberts.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Llanllechid am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Cledwyn Williams, Bangor.

Gwasanaethir yn Nant Peris am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

## Cofion

Dymunwn wellhad buan i bob un o'n haelodau sydd heb fod mewn iechyd da yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion at y rhai sydd neu a fu yn yr ysbyty dros yr wythnosau diwethaf. A'r un modd, anfonwn ein cofion gorau at yr aelodau sydd mewn cartrefi preswyl neu gartrefi nyrsio ar hyn o bryd. Carwn i chi oll wybod fod yr eglwysy yn cofio amdanoch ac yn gweddio y bydd pob nerth a chysur yn cael ei roi i chi, ac y byddwch oll yn ymwybodol o ofal yr Arglwydd ein Duw.

## Cymdeithas Undebol

Bydd Cymdeithas Undebol Llanberis yn ail ddechrau yn Capel Coch nos Fawrth, Medi 4, am 7.00 o'r gloch. Ceir noson yng nghwmni Alaw Tecwyn, Rhiw, Pen Llŷn.